

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun Nos Fawrth 17eg Ionawr 2017

Cyfarfod yn lle y 3ydd o Ionawr a gafodd ei ohirio oherwydd salwch.

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Y Cyngorydd Elfed Williams, a'r Cyngorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, Jane Pierce, Richard Ll. Jones, Idris Thomas, R. Hefin Williams a Sion Jones

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

1. Ymddiheuriadau.

Tristwch oedd derbyn nodyn ebost oddiwrth y Cyngorydd Gwilym Williams yn datgan ei ymddeoliad o'r Cyngor Cymuned ar ôl nifer helaeth o flynyddoedd yn cynrychioli ardal Clwt y Bont. Diolch yn fawr iawn iddo am ei waith trwyadl yn gwasaneuthu trigolion yr ardal ar y cyngor. Bu ei gyfraniad i'r plwyf yn werthfawr iawn dros y blynyddoedd ac mi fyddwn yn colli ei fewnbwn yn y cyfarfodydd. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddo.

2. Datgan buddiant. Dim

3. Cofnodion cyfarfod 6ed Rhagfyr

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

4. Materion o'r cofnodion

Eco'r Wyddfa – Llauer o bobl bellach yn colli yr adroddiadau o'r cyngorhorau cymunedol sydd ddim yn ymddangos yn yr Eco. Er fod yr hanes i gyd yn cael ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned, nid pawb sydd gyda mynedfa i'r wefan. Felly, mae pwyllgor yr Eco wedi cytuno i ni roi pytiau o'r cyfarfod sydd wedi ei olygu fel cynnwys yn y papur bro unwaith eto. Bu i Richard gynnig golygu y cofnodion er mwyn rhoi yn yr eco yn fisol.

Llwybr Seiclo ar yr A4244 – Derbyniwyd llythyr yn ymateb i'n cais am lwybr seiclo at Tŷ Mawr. Mae'r weledigaeth o hyn dal yn obeithiol, ond yn dibynnu yn llwyr ar gyfleoedd ariannol fydd ar gael yn y dyfodol.

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr yn datgan bydd bin yn cael ei osod yn lle yr un sydd wedi diflannu ger Cae Chwarae Penisarwaun - dim son am y ddau sydd yn Rhiwlas, gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto gyda Steffan Jones

Golau Stryd – Derbyniwyd gais gan drigolion ardal Tan y Gaer, ei bod yn dywyll ac angen lamp i oleuo y stryd yn dilyn symyd polyn yn ddiweddar. Cysylltu er mwyn cael pris.

5. Cynllunio

Tyn Rhos, Bethel – Creu mynedfa gerbydol newydd

Ty Gwyn Waun Penisarwaun – Trosi adeiladau presennol yn dair uned wyliu hunan wasanaeth .

Cafwyd hefyd gadarnhad o adran cynllunio y buasai yr eglwys ym Mhenisarwaun angen rhoi cais cynllunio i godi Neuadd ar yr Eglwys. Awgrymwyd tynnu hyn i sylw Y Parch. Carol Roberts.

6. Cyllideb a Praesept

Cytunwyd yn unfrydol fod rhestr gwariant a derbyniadau yn gywir am y chwarter. Penderfynwyd fod rhestr draft y cyllideb 2017/2018 mwy neu lai yn ei le, ac wedi

trafodaeth o dynnu a rhoi yma ac acw, cytunwyd ar y gyllideb ac oherwydd toriadau a chostau cynnal a chadw a gofynion arnom dros y plwyf, bydd rhaid codi y praesept i £20,000 eleni.

Cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

7. Holiadur Hwylusydd Tai Gwledig

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd fod y cyngor yn rhoi caniatad i Grwp Cynefin yrru holiadur i bob tŷ er mwyn gwneud ymchwil i'r angen am dai yn yr ardal.

Rhodddwyd ychydig o gwestiynnau yn ychwanegol ymlaen i ymddangos ar yr holiadur.

10. O gwmpas y bwrdd

Cysgodfan bws Ym Mrynrefail - mae panel ar goll wedi malu ac ddim digon cryf, efallai y buasai panel metal yn well yno.

Ailgylchu Rhiwlas – Gosodwyd camera ar y safle, ac yn wir mae rhai wedi eu dal yn llechio ar y camera, ond mae'r camera bellach wedi ei ddwyn. Mae'r cyngor yn ymgeisio i wneud eu rhan, ond mae angen y cyhoedd i gyd weithio yn yr ardal ar faterion o'r fath.

Dŵr Cymru – Gwahodd aelodau i siarad ynglyn a problemau carffosiaeth yn Bethel

Problemau Baw Cŵn – Nifer o broblem yn dal i fod. Angen rhoi dirwyon yn yr ardal.

Gwahodd y warden i'r cyfarfod i gael gwybodaeth a trafodaeth ar y broblem ym mhob ardal.

Mynwent Macpelah – Pobol yn mynd a cŵn i fewn i'r fynwent, pan mae yno arwydd dim cŵn yn hollol blaen ar y giat. Angen arwyddion newydd a dirwyonil bobol sydd yn cael eu dal gyda ci yn y fynwent.

Post Deithiol - Clod mawr i'r post deithiol sydd i'w weld rhwng 10:45 a 12:15 ger Ty Elidir ar fore dydd Gwener.